



Bwyd a Diod Cymru
Food & Drink Wales

Tel: 03000 603000
fooddivisionalbusiness@gov.wales
[gov.wales/food and drink](http://gov.wales/food-and-drink)

January 2023

Nodyn i Ddiwydiant, Manwerthwyr a gorfodaeth gan Awdurdodau Lleol yng Nghymru

Gofynion labelu ar gyfer marchnata wyau maes os yw gorchmynion lletya yn parhau mewn grym y tu hwnt i 16 wythnos

Mae'r canlynol yn berthnasol o 1 Chwefror 2023 i wyau maes sydd ar werth yng Nghymru o heidiau yn Lloegr o dan orchymyn lletya gorfodol sy'n para mwy na 16 wythnos.

Bydd y canlynol hefyd yn berthnasol o 24 Mawrth 2023 i wyau sydd ar werth yng Nghymru o heidiau yng Nghymru dan orchymyn lletya gorfodol sy'n para dros 16 wythnos.

Cefndir

1. O ganlyniad i'r achosion niferus o Ffliw Adar (AI) mewn adar gwyllt ac adar a gedwir, daeth Gorchymyn Lletya Cymru i rym ar 2 Rhagfyr 2022.
2. Roedd hyn yn dilyn Gorchymyn Lletya ar gyfer Lloegr yn unig a ddaeth i rym ar 7 Tachwedd 2022 a mesurau lletya rhanbarthol a ddaeth i rym mewn rhannau o Loegr ar gyfer Norfolk, Suffolk a rhannau o Essex ar 12 Hydref 2022.
3. Mae Parthau Atal Ffliw Adar ar waith i leihau'r risg i heidiau domestig a masnachol o Ffliw Adar. Mae'r Parth Atal yn gofyn i bob ceidwad dofednod weithredu mesurau bioddiogelwch uwch yn eu heidiau yn benodol drwy letya neu wahanu pob dofednod oddi wrth adar gwyllt. Felly ni fydd gan adar mewn heidiau 'maes' fynediad at fannau tu allan mwyach.

Y gyfraith

4. Mae deddfwriaeth ar gyfer Safonau Marchnata Wyau wedi'i nodi o fewn Rheoliad y Comisiwn a ddargedwir (EC) Rhif 589/2008 ("y Rheoliadau"). Mae'r gyfraith yn mynnu bod yn rhaid i arwydd o'r dull ffermio ymddangos ar wyneb allanol pecynnau wyau mewn math hawdd eu gweld ac yn amlwg ddarllenadwy.

5. Mae cyfnod rhanddirymiad sefydlog o 16 wythnos yn bodoli lle gall wyau o adar maes barhau i gael eu marchnata fel wyau maes er bod yr adar yn cael eu lletya oherwydd y gorchymyn lletya gorfodol. Rhaid gwerthu unrhyw wyau sy'n cael eu dodwy ar ôl y cyfnod 16 wythnos hwn, tra bod dal angen lletya ieir, fel 'wyau ysgubor', gan adlewyrchu eu llety, nes bod y gorchymyn lletya yn cael ei godi a bod gan yr ieir fynediad i'r gofod awyr agored unwaith eto.

Canlyniadau'r Gorchmynion Lletya

6. Os bydd Gorchymyn Lletya Cymru'n parhau'n hirach na 16 wythnos (h.y. o 24 Mawrth 2023) ar draws pob un neu rannau o Gymru bydd dal yn rhaid i wyau sy'n tarddu o heidiau rhydd yng Nghymru gael eu labelu fel 'wyau ysgubor' i gydymffurfio â'r gofynion labelu o fewn y Rheoliadau (gweler Erthygl 12).

7. Bydd yr un gofynion yn berthnasol o 1 Chwefror 2023 yn Norfolk, Suffolk, a rhannau o Essex, ac o 27 Chwefror 2023 yng ngweddill Lloegr.

Pacio, labelu a gwerthu wyau os yw heidiau maes yn cael eu lletya am fwy na 16 wythnos.

Stampio wyau

8. Mae'n ofynnol i gynhyrchwyr wyau sicrhau bod pob wy yn cael ei stampio â'r cod priodol i ddangos bod y dull ffermio wedi newid o gynhyrchu 'maes' (1UK) i 'ysgubor' (2UK) nes i'r gofyniad lletya gorfodol gael ei godi.

Labelu blychau wyau

9. Gweler Atodiad A isod ar gyfer diagramau perthnasol.

Rhaid i ganolfannau pacio wyau roi un o'r opsiynau canlynol ar gyfer marchnata wyau a gafodd eu dodwy ar neu ar ôl i'r rhanddirymiad 16 wythnos ddod i ben (Atodiad A a B). Dyma hwy, yn y drefn a ffefrir:

1. Mae wyau i'w gwerthu mewn blychau "ŵy ysgubor" i arddangos yn glir ddull ffermio'r wyau.

2. Gosod sticer eraill dros y testun "maes" i guddio neu dorri ar ei draws gan adael y dull ffermio cywir ("Wyau Ysgubor") yn hawdd i'w weld ac yn hawdd ei ddarllen i'r defnyddiwr. Rhaid i'r sticer dros y testun gwreiddiol fod o ddeunydd addas i'w osod er mwyn caniatáu glynu da ac i atal unrhyw labeli rhag datod cyn eu gwerthu i'r defnyddiwr terfynol.

3. I gydnabod y pwysau mae'r diwydiant wyau yn eu hwynebu ar hyn o bryd oherwydd costau mewnbwn cynyddol ac effeithiau Ffliw Adar, rhoddir consesiwn pellach i ganiatáu defnyddio argraffu uniongyrchol i becynnu neu label wedi'i osod ar flychau wyau maes lle mae'r geiriau "Wyau Ysgubor" yn cael eu cynnwys yn yr adran 'Gorau Cyn' ar gyfer gwerthu domestig. Dylai'r geiriau "Wyau Ysgubor" fod yn hawdd eu gweld ac yn hawdd eu ddarllen. **Dyma'r opsiwn lleiaf** a gytunwyd os nad yw'r gorchymyn lletya wedi'i godi erbyn i'r naill neu'r llall o'r ddau gyfnod rhanddirymiad 16 wythnos ddod i ben yn 2023.

Arwyddion Pwynt Gwerthu (POS)

Oherwydd y gwahanol ddyddiadau Gorchymyn Lletya a dyddiadau y cyfnod rhanddirymu 16 wythnos dilynol, mae arwyddion Pwynt Gwerthu clir a thryloyw (POS) yn hanfodol i sicrhau nad yw defnyddwyr yn cael eu camarwain, ac i osgoi tanseilio hyder defnyddwyr yn y diwydiant wyau maes. Os defnyddir print uniongyrchol i label pecynnu neu label wedi'i osod i farchnata wyau, dylid defnyddio gwybodaeth POS i'w gweld yn glir i helpu prynwyr posibl i wneud penderfyniad ar sail gwybodaeth.

Byddai yn arfer gorau i arwyddion POS yng Nghymru o 1 Chwefror 2023 mewn unrhyw amgylchedd manwerthu lle mae wyau 'maes' wedi'u hailbacio neu eu hailbecynnu ar werth.

Argymhellir bod arwyddion POS yn datgan yn glir y dull o gynhyrchu a'r rhesymau dros letya'r ieir dros dro. Dylai'r diwydiant wyau hefyd weithio ar y cyd â manwerthwyr ac arlwywyr i sicrhau bod defnyddwyr yn cael eu gwneud yn gwbl ymwybodol o statws yr wyau hyn cyn eu prynu. Bydd pa mor ddigonol yw hysbysiad neu arwydd a pha mor addas yw ei leoliad yn cael ei asesu fesul achos.

Y disgwyliadau lleiaf ar gyfer POS ac arwyddion yn y siop fyddai:

1. Ar y silff wyau, i osod arwydd wrth ymyl y pris gwerthu ar bob uned cadw stoc (SKU) o wyau maes yr effeithir arnynt.
2. Gosod hysbysiad manwl i ddefnyddwyr yn yr ardal gwerthu wyau. Bydd hyn yn sicrhau bod defnyddwyr sy'n ceisio prynu wyau maes yn darllen gwybodaeth POS gydag esboniad clir bod yr wyau'n wyau ysgubor nes bod ieir yn gallu cael mynediad unwaith eto i ardaloedd awyr agored.
3. Rhoi gwybodaeth ychwanegol am y gorchymyn lletya a newidiadau marchnata dros dro ar-lein, ar y pwynt archebu a bod ar gael ar y pwynt cyflwyno.
4. Gosod arwyddion ychwanegol yn y siop mewn ardaloedd sy'n cynnwys wyau maes fel cynhwysion (er enghraifft, yn yr eil nwyddau neu yr eil mayonnaise) i dynnu sylw defnyddwyr at statws yr wyau, os effeithir ar y cynhyrchion hyn.

Dyma eiriau ac ymadroddion allweddol i'w defnyddio mewn cyfathrebu POS:

- Yn ymwneud â ieir maes
- Mae adar yn cael eu cadw dan do dros dro
- Er lles
- Rhaid labelu wyau o ieir sydd wedi cael eu lletya am 16 wythnos neu fwy fel Wyau Ysgubor
- Cefnogi Ffermwyr Prydain
- Canllawiau'r Llywodraeth

Dylid ceisio defnyddio'r geiriau hyn hefyd mewn datganiadau a roddir mewn siopau manwerthu, gwefannau a'r sector y tu allan i'r cartref (er enghraifft, mewn caffis a bwytai).

Allforion

Dylai allforion i'r UE barhau i gadw at safonau'r UE neu mae perygl iddynt gael eu gwrthod ar Safleoedd Rheoli Ffiniau neu du hwnt. Dylai allforion i weddill y byd barhau i gadw at y gofynion a osodwyd gan wlad y gyrchfan.

Gwerthiant wyau ar-lein

Ar gyfer gwerthu wyau ar-lein, os bydd unrhyw un o'r cyfnodau rhanddirymiad 16 wythnos yn dod i ben yn 2023, dylai datganiadau ymddangos ar dudalennau cartref gwefan, ar faneri mewn tudalennau tacsonomeg wyau a phan fydd cwsmeriaid yn chwilio am wyau. Dylai tudalennau gwybodaeth gyffredinol ac adrannau Holi ac Ateb gwefannau hefyd gynnwys gwybodaeth am yr achosion presennol o Ffliw Adar.

Wyau fel cynhwysyn

Os bydd unrhyw un o'r cyfnodau rhanddirymiad 16 wythnos yn dod i ben yn 2023, bydd rhestr o gynhwysion ar gynnyrch bwyd wedi'i becynnu ymlaen llaw yn mynd yn groes i'r Rheoliad Gwybodaeth Bwyd i Ddefnyddwyr (FIC) a ddargedwir (UE) 1169/2011 os yw'n dangos ei fod yn cynnwys wyau maes pan ddylid dosbarthu'r wyau fel Wyau Ysgubor, oni bai ei fod wedi'i gywiro. Pe bai arwydd wyau maes yn cael ei roi ar restr o gynhwysion, bydd defnyddio hysbysiad neu arwydd cywiro clir mewn lleoliad addas yn ddigon i gywiro'r cyfeiriad at wyau 'maes'.

Atodiad A

Sticer gorchuddio



Consesiynau argraffu ar y pecyn



Arwydd Man Gwerthu (POS)

